


Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru

Cyfarwyddwr Artistig



Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru

GGRGC, d/o Salisbury, Sgwâr Iwerddon
Ffordd Dinbych Uchaf, Llanelwy, LL17 0RN
Rhif Elusen Gofrestredig 509023

Rôl y Cyfarwyddwr Artistig

Mae Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru (GGRGC) yn chwilio am Gyfarwyddwr Artistig newydd i baratoi ar gyfer 2024 yn dilyn cyfnod Ann Atkinson o dros 20 mlynedd o arweinyddiaeth ragorol.

GGRGC yn ŵyl gerddoriaeth glasurol a sefydlwyd ym 1972 gan y cyfansoddwr William Mathias ac a lwyfannir yn flynyddol ym mis Medi yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy, a ddewiswyd gan Mathias oherwydd ei acwstig arbennig iawn.

Mae GGRGC yn cynnig rhaglen amrywiol o gyngherddau, gweithdai, a dosbarthiadau meistr, ynghyd ag ymrwymiad cryf i addysg sefydledig a gwaith allgymorth cymunedol, gan gynnwys taith gymunedol flynyddol. Mae GGRGC yn ddigwyddiad cerddorol gwerthfawr ac unigryw yng Ngogledd Cymru.

'Mae cynllunio Gŵyl Gerdd newydd yn her gyffrous. O ystyried safonau cerddorol uchel fel y flaenoriaeth gyntaf, daw'n angenrheidiol wedyn i ddarparu amrywiaeth o fewn undod pwrpas cyffredinol, gyda phob cyngerdd yn gyflawn ynddo'i hun yn ogystal â bod yn rhan o'r cyfanwaith mwy'.

William Mathias 1972

Y Swydd

Mae'r Cyfarwyddwr Artistig yn atebol i Gyngor Rheoli Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru am gynhyrchu'r Ŵyl flynyddol o fewn y gyllideb a gytunwyd ac yn unol â gofynion y cyrff cyllido perthnasol.

Mae'r rôl ran-amser gyffrous hon yn caniatáu gweithio hyblyg trwy gydol y flwyddyn ar y cyd â swydd arall.

Cyfrifoldebau Allweddol

- Penderfynu ar gyfeiriad creadigol cyffredinol a datblygiad GGRGC gyda'r Cyngor Rheoli.
- Gweithio ochr yn ochr â Rheolwr yr Ŵyl wrth gynllunio, trefnu a chynhyrchu'r Ŵyl.
- Sicrhau bod y rhaglen flynyddol yn cael ei rhedeg o fewn y gyllideb y cytunwyd arni gydag adroddiadau cynnydd rheolaidd yn cael eu darparu i'r Cyngor Rheoli.

Mae cyfrifoldebau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol:

Gweledigaeth Artistig ac Arweinyddiaeth

- Darparu gweledigaeth ac arweiniad artistig i GGRGC i sicrhau ei fod yn parhau i chwarae rhan ganolog ym mywyd diwylliannol Gogledd Cymru a'r cyffiniau.
- Cynnal a gwella ymhellach statws cydnabyddedig GGRGC yn y rhanbarth a thu hwnt.
- Parhau i ganolbwyntio ar gerddoriaeth o ansawdd uchel, datblygu a chefnogi cerddorion ifanc yng Nghymru ac archwilio genres cerddorol amrywiol, tra'n datblygu mentrau newydd i wella bri'r Wyl, a hyrwyddo mwy o ymgysylltiad a brwdfrydedd gyda chynulleidfaoedd newydd.
- Cynnal cydberthnasau gwaith rhagorol â'r diwydiant cerddoriaeth ehangach, er mwyn gwella enw da GGRGC – gan weithredu fel 'Llysgennad yr Wyl' a'r 'Arweinydd'.
- Ymgysylltu a datblygu partneriaethau gyda grwpiau o fewn y gymuned gyda'r nôd o greu prosiectau, cyngherddau a gweithdai newydd cyffrous.

Cynllunio, Trefniadaeth a Chyflawni

- Cynllunio, trefnu a chyflwyno'r Wyl flynyddol sy'n cydnabod modelau blaenorol ac yn cynnig datblygiadau newydd. Bydd dilyniant o'r fath yn estyn allan i gynulleidfaoedd newydd, yn datblygu cysylltiadau ymhellach â sefydliadau diwylliannol eraill yn y rhanbarth, ac yn genedlaethol, ac yn denu noddwyr a chyrff cyllido newydd.
- Cynllunio rhaglen gyffredinol ysgogol a chydlynol yn artistig ar gyfer yr Wyl; y rhaglenni manwl ar gyfer pob digwyddiad; a nodi ac ymgysylltu ag artistiaid o ansawdd uchel a fydd yn cynnal enw da'r Wyl.
- Gweithio o fewn cyllideb y cytunwyd arni gyda'r Cyngor Rheoli, y Trysorydd a Rheolwr yr Wyl.
- Gweithio'n agos gyda Rheolwr yr Wyl, a staff a gwirfoddolwyr eraill wrth gynllunio a chyflwyno'r Wyl.

Datblygu, Marchnata a Chodi Arian

- Chwarae rhan allweddol yn natblygiad strategaeth farchnata a chyfathrebu GGRGC, ar y cyd â Rheolwr yr Ŵyl a'r Cyngor Rheoli.
- Goruchwylio cynnwys artistig deunydd cyhoeddusrwydd, boed wedi'i argraffu, ar-lein neu mewn ffurfiau eraill.
- Chwarae rhan allweddol yn natblygiad a gweithrediad strategaeth ariannu GGRGC ochr yn ochr â Rheolwr yr Ŵyl.
- Meithrin a datblygu perthynas gyda sefydliadau diwylliannol eraill yng Ngogledd Cymru a'r cyffiniau, a gydag asiantaethau allanol megis noddwyr, cymwynaswyr, partneriaid addysgol, cynrychiolwyr cymunedol lleol, y wasg, a chyrrff cyllido.

Dyletswyddau Allweddol

Mae dyletswyddau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol:

- Dewis artistiaid, a datblygu rhaglenni gyda'r artistiaid hynny, yn unol â chenhadaeth a gweledigaeth greadigol yr Ŵyl.
- Ymgysylltu a thrafod gydag artistiaid ac asiantau mewn cydweithrediad â Rheolwr yr Ŵyl.
- Datblygu gweithdai, dosbarthiadau meistr, a theithiau cymunedol o fewn yr Ŵyl flynyddol.
- Ymgysylltu ag ysgolion lleol i sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl gyda grwpiau ieuencid a chymunedol.
- Cydgysylltu â Rheolwr yr Ŵyl wrth gynllunio perfformiadau, amserlenni ymarfer a llwyfannu, a gofynion artistig eraill.
- Arwain a chydweithio â sefydliadau cysylltiadau cyhoeddus i sicrhau'r sylw mwyaf posibl a chyhoeddusrwydd a chyfathrebu effeithiol trwy grwpiau cymunedol, derbynfeydd a chyfleoedd yn y cyfryngau.
- Cwblhau a goruchwylio pob cais am arian grant mewn cydweithrediad â Rheolwr yr Ŵyl.

Gwybodaeth Pwysig

Bydd y rôl hon yn cynnwys gweithio gyda phlant ac oedolion bregus ac felly bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o Dystysgrif DBS diweddar.

Rydym am ychwanegu at amrywiaeth ein gweithlu ac felly byddem yn croesawu'n arbennig geisiadau gan gymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm ar hyn o bryd.

Mae GGRGC yn Elusen Gofrestredig a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Rydym yn ymroddedig i Gyfleoedd Cyfartal, defnydd o'r Iaith Gymraeg, ac egwyddorion Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chydraddoldeb.

Cyfarwyddwr Artistig – Y Person

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Gyfarwyddwr Artistig presennol neu'n dymuno bod yn Gyfarwyddwr Artistig. Byddant yn arweinydd ysbrydoledig ac yn gerddor uchel ei barch, yn y sector perfformio.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dod â phrofiad a dealltwriaeth sylweddol o'r dirwedd gerddoriaeth leol, genedlaethol a rhyngwladol a phrofiad o ennill cefnogaeth ariannol yn llwyddiannus o amrywiaeth o ffynonellau a sefydliadau.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos y sgiliau i ddod yn 'Gyfarwyddwr Artistig' eithriadol, gyda'r creadigrwydd a'r hyder i fapio rhaglen gyffrous a pherthnasol o weithgareddau, repertoire a pherfformiadau cerddorol sy'n hybu lefelau rhagorol o ymgysylltiad a brwdfrydedd y gynulleidfa.

Bydd gan Gyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru gysylltiadau rhagorol â'r diwydiant cerddoriaeth glasurol gyfoes, ynghyd â dealltwriaeth lawn ohono, ac empathi â chynulleidfaoedd a diwylliannau Gogledd Cymru. Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn fantais ond nid yw'n hanfodol i'r rôl hon.

Yn anad dim!

Bydd Cyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru yn gerddor ymarferol sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd, yn arweinydd cydweithredol ac yn weinyddwr rhagorol sy'n dangos cynhesrwydd, agosatrwydd a chariad at rannu eu gwybodaeth gerddorol helaeth â chynulleidfaoedd. Bydd sgiliau cyfathrebu ac egni eithriadol y Cyfarwyddwr Artistig yn sicrhau bod yr Ŵyl yn parhau i feithrin perthnasoedd, datblygu partneriaethau newydd, ac adeiladu ar ei henw da am ddod â cherddoriaeth o safon fyd-eang i Gadeirlan Llanelwy a chyfoethogi bywydau pobl Gogledd Cymru a'r cyffiniau.

Sut i wneud cais

Gwahoddir ceisiadau cyn gynted â phosibl. Dylid anfon CV llawn a llythyr cais i caroline@nwimf.com.

Dylai'r llythyr cais gynnwys enwau, cyfeiriadau, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn tri chanolwr a ddylai gynnwys eich rheolwr llinell presennol fel y bo'n briodol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau – Dydd Gwener 14 Gorffennaf

Cyfweliadau Rhestr Hir trwy Zoom – Dydd Mawrth 18 Gorffennaf

Cyfweliadau Rhestr Fer yn Llanelwy – Dydd Gwener 21 Gorffennaf





NORTH WALES
INTERNATIONAL
MUSIC FESTIVAL

GŴYL GERDD
RYNGWLADOL
GOGLEDD

nwimf.com

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Mae Gŵyl Gerdd Ryngwladol Gogledd Cymru yn credu y dylai pawb gael eu trin yn gyfartal waeth beth fo'u hunaniaeth rhywedd, hil, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth neu wahaniaeth amherthnasol arall, ac rydym wedi ymrwymo i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Pwrpas y ffurflen hon yw i'n cynorthwyo i fonitro ein ymarfer cydraddoldeb ac i adnabod rhwystredigaethau i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein gwaith. Yr ydym yn gofyn ichi lenwi'r ffurflen a'i anfon yn ôl gyda'ch cais. Caiff y ffurflen hon ei wahanu o'r cais pan dderbynnir. Defnyddir y wybodaeth ar y ffurflen hon ar gyfer monitro yn unig a ni chwaraeir unrhyw ran yn y broses recriwtio.

Rôl yr ymgeisiwyd
amdani

Ymhle wnaethoch chi
glywed am y rôl?

Dyddiad geni

Gwell peidio
dweud

Sut fuasech chi'n
disgrifio'ch
ethnigrwydd?

Gwell peidio
dweud

Ydych chi'n ystyried
eich hun fel person ag
anabledd?

Ydw

Nac ydw

Gwell peidio
dweud

Diffinir person anabl gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel rhywun sydd ag amhariad gorfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Sut fuasech chi'n
disgrifio eich
hunaniaeth rhywedd?

Gwell peidio
dweud

Ydy'ch hunaniaeth
rhywedd yn wahanol i'r
rhyw ichi gael eich
neilltuo ar enedigaeth?

Ydw

Nac ydw

Gwell peidio
dweud

Sut fuasech chi'n
disgrifio eich statws
priodasol?

Gwell peidio
dweud

Sut fuasech chi'n
disgrifio eich
cyfeiriadedd rhywiol?

Gwell peidio
dweud

Sut fuasech chi'n
disgrifio eich crefydd
neu gred?

Nid oes gen
i grefydd
neu gred

Gwell peidio
dweud

Sut fuasech chi'n
disgrifio'ch lefel
rhuglder yn y Gymraeg?

Does dim
ddealltwriaeth
o'r Gymraeg
gen i

Gwell peidio
dweud

Beth yw'r lefel uchaf o
addysg ichi gwblhau?

Gwell peidio
dweud

Plis defnyddiwch y gwagle i adael inni wybod sut y gallwn fod yn fwy agored a hygyrch
fel sefydliad: